**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (CROESFAN REILFFORDD CILYRYCHEN, LLANDYBÏE, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, wrth groesfan reilffordd Cilyrychen, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn am 40 metr i'r naill ochr a'r llall i groesfan reilffordd Cilyrychen ar Heol Llandeilo, Llandybïe.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A483 tua'r de drwy Rhydaman a Thŷ-croes i Gylchfan Pont Abraham, yr A48 tua'r gogledd i Gylchfan Cross Hands a'r A476 tua'r gogledd-ddwyrain drwy Gors-las a Charmel i ailymuno â'r A483 wrth Gylchfan Ffair-fach: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 12 Mai 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn weithredol o 21:40 o'r gloch ar 12 Mai hyd 05:35 o'r gloch ar 13 Mai 2024, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn dechrau unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (CILYRYCHEN LEVEL CROSSING, LLANDYBIE, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Cilyrychen level crossing, Llandybie, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends for 40 metres either side of Cilyrychen level crossing at Llandeilo Road, Llandybie.

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound A483 via Ammanford and Tycroes to Pont Abraham Roundabout, northbound A48 to Cross Hands Roundabout and north-eastbound A476 through Gorslas and Carmel to rejoin the A483 at Ffairfach Roundabout: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 12 May 2024. The temporary prohibition is expected to operate from 21:40 hours on 12 May until 05:35 hours on 13 May 2024, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government